Y R

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1896. [RHIF 108

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DYFODOL UNDODIAETH YN NGHYMRU.

NID oes yr amheuaeth leiaf gyda golwg ar y cyfeiriad yn yr hwn y mae Undodiaeth yn ymsymmud ar yr adeg bresennol yn Nghymru. Bydd yn rhaid i'r gwanaf ei ffydd yn ei llwyddiant gyfaddef fod yr achos Undodaidd yn myned rhagddo, nid, o bossibl, mor gyflym ag y carai llawer, ond etto mae yn symmud yn y blaen ac nid yn ol. Mae "diwygiad" wedi dechreu. Yr wyf yn arfer y gair "diwygiad" yn fwriadol. Er nas gallwn hawlio fod ein cydwladwyr yn ymdyru i'r capeli, ac yn dadgan yn gyhoeddus eu hymlyniad wrth ein hegwyddorion a'n daliadau, etto os caniateir y gall diwygiad amlygu ei hun mewn cyflawnder iachus o yni a gweithgarwch, mewn mwy o benderfyniad ymosodol ac o obaith ar ran y sawl ydynt yn barod o dan faner Undodiaeth, yna mae yr Undodiaid yn Nghymru yn wir wedi gweled diwygiad.

Yr ydym yn dyfod i sylweddoli fod undeb yn nerth, ac o dan ddylanwad yr argyhoeddiad hwn, gwna ein harweinwyr, yn weinidogion ac yn wyr lleyg, ymdrechion canmoladwy i ddwyn ein nerthoedd at eu gilydd i weithio i'r un amcan daionus. Mae ein dwy gymdeithas leol mewn yspryd da i weithio, ac ar eu heithaf i gario allan y gwaith ymosodol y maent wedi ymgymmeryd âg ef. Mae cyrch-fanau y pregethir ynddynt wedi eu gosod i fyny yn ddiweddar yn Sychpant mewn cyssylltiad à Chapel-y-Bryn, ac yn Mhencader. Gwneir gwaith da hefyd gan yr eglwysi ydynt newydd eu sefydlu yn Nghwm Rhondda. Mae y cyfarfodydd chwarterol, ac yn enwedig y cwrdd blynyddol a gynnaliwyd yn Rhydygwin ddiwedd yr haf eleni, wedi rhoddi digon o brofion fod rhywbeth wedi ei ddechreu, a rhywbeth wedi ei gyflawni er ffyniant

ein hachos. Dygwyd i sylw yno y llyfr emynau a thonau newydd ag y mae Mr. Eiddil Jones a'i ddau gyfaill wedi ei drefnu er mwyn diwygio caniadaeth ein cyssegr. Ar yr un pryd, penderfynwyd gwneyd symmudiad newydd gyda gwaith yr Ysgolion Sul trwy fabwysiadu cynllun er hyrwyddo astudiaeth well a mwy manwl o fywyd yr Iesu. Cafodd y gorchwyl o barotoi gwersi priodol, sylfaenedig ar Efengyl Marc, ei gyflwyno i Mr. W. James, B.A., Llandyssul, boneddwr ag y mae ei gymhwysderau ar gyfer y cyfryw waith tuhwnt i bob amheuaeth. Ymddengys y gwersi hyn o fis i fis yn yr Ymofynydd. Os ca y llyfr emynau a thonau, a'r cwrs hwn o wersi godidog y gefnogaeth a deilyngant, gallwn ddysgwyl canlyniadau bendithfawr yn ansawdd ein canu cynnull-eidfaol ac yn yr addysg a gyfrenir yn ein Hysgolion Sul.

Nid yw ein dyledswyddau at y sawl ydynt tu faes i deulu'r ffydd wedi eu gwasgu i'r naill ochr gan yr ymgais hwn i ddarparu ar gyfer angenion ein henwad ein hunain. Yr ydys yn brysur barotoi cyfres o draethodynau Cymreig ar y testynau canlynol:—"Hanes Undodiaeth yn Nghymru"; "Ein syniad am Dduw"; "Yr Yspryd Glan"; "Iesu o Nazareth"; "Iachawdwriaeth"; "Yr Ysgryth-yrau Hebreig a Christionogol." Trwy gyfrwng y traethodynau hyn, yr ydym yn gobeithio y byddwn yn abl i wneyd ein cenadwri yn wybyddus i gannoedd nad ydynt erioed wedi cael y cyfle i wrando arni oddiar wefusau neb o'n pregethwyr.

Mae agwedd y wasg yn llawer mwy ffafriol nag oedd hyd y nod bum' mlynedd yn ol. Fel mae cynnrychiolwyr y wasg yn dyfod yn fwy cydnabyddus â ni, ac â'n syniadau, maent yn fwy parod i roddi adroddiad o'n cyfarfodydd. Mewn gair, mae colofnau ein papyrau lleol gymmaint at ein gwasanaeth ni ag ydynt at wasanaeth yr enwadau uniongred. Mae hyn yn fantais fawr, am yr helpia ni i ddwyn ein gwaith gerbron y cyhoedd, i leihau yr annealltwriaeth a achosir gan ein safle fel enwad, ac o ganlyniad lleihau y ragfarn sydd yn ein herbyn, a thrwy hyny barotoi y tir er derbyn yr had yr ä ein hauwyr allan i'w hau.

Enwad bychan ydym mewn cymhariaeth i'r Methodistiaid Calfin-aidd, neu yr Annybynwyr, neu y Bedyddwyr. Ond sicr yw fod yna ganoedd yn dal cyssylltiad â'r enwadau hyn nad ydynt o honynt, er eu bod gyda hwynt mewn enw. Maent yr hyn a ellir alw yn Undodiaid yn y cudd. Tu fewn i'm gwybodaeth i, mae lluaws, fel Nicodemus gynt, yn awyddus am gael ymgom â rhywun a draetha wrthynt efengyl cariad a llawenydd a rhyddid, ond i hyny fod yn y dirgel. Byddai yn naturiol yn well genym weled y Nicodemusiaid hyn yn cymmeryd eu rhan yn gyhoeddus o blaid y gwirioneddau mawrion a bregethir yn eofn genym, a gwirioneddau y mae eu meddyliau a'u cydwybodau hwythau yn dwyn tystiolaeth iddynt. Ond ni fynwn ddelio yn galed atynt, am yr hyn a ym-ddengys i ni yn agwedd hollol anghysson. Fe wyr pob un sydd wedi myned trwy y prawf mai nid gorchwyl hawdd yw tori yn rhydd o hen gyssylltiadau, yw troi y glust fyddar i ymbiliau difrifol

cyfeillion serchus ac i erfyniadau taerion rhieni anwyl; gadael cartref crefyddol boreu bywyd, ac ymuno â dyrnaid fechan o bobl y dywedir yn mhob man bron yn erbyn y grefydd a broffesant. Er eu bod yn ddiffygiol o'r gwroldeb i wneyd yr "ymwadiad mawr," etto mae yr ymwybodolrwydd eu bod mewn cydymdeimlad â ni yn cryfhau ac yn sirioli y rhai hyny ydynt yn cyhoeddi efengyl ammhoblogaidd fel ein hefengyl ni. Felly boed i ni fod yn ymarhous wrth y rhai hyn sydd yn cydymdeimlo a ni yn y dirgel, gan gofio fod y rhai sydd yn sefyll ac yn dysgwyl hefyd yn gwasanaethu. Mae lluaws o honynt yn "dysgwyl" ac yn gweddio yn yr yspryd am ddyfodiad y dduwinyddiaeth hono a fydd yn fwy cysson â'n greddf foesol ni, ac â rheswm, na'r dduwinyddiaeth sydd wedi ei phregethu am genedlaethau o bwlpudau ein gwlad. Heblaw yr Undodiaid dirgel hyn, fel yr wyf wedi eu galw, mae yna hefyd Undodiaid ar wasgar—personau nad ydynt yn celu eu heresiau, ond ydynt yn eu cartrefleoedd yn methu dyfod o hyd i nifer ddigonol o bobl o feddwl cydnaws i'w galluogi i sefydlu achos Undodaidd yn nghyffiniau y manau y preswyliant ynddynt. Yn mhlith yr alltudiaid hyn, a flinir yn aml gan gymydogion annyoddefgar, fe geir gwyr a gwragedd a wnant, mewn amrywiol ffyrdd, wasanaeth mawr i'r achos ag y bodola ein heglwysi i'w ddal i fyny. Mae eu hymdrechion yn brysio y diwygiad newydd yr ydym ni yn hiraethu am ei weled.

A chaniatau y dylanwadau nerthol ag ydynt wedi bod yn gweithio o'n tu yn ystod y blynyddau diweddaf, nid yw pob gwrthwynebiad i'n cenadwri, er hyny, wedi darfod. Mae gyda ni o hyd i ymladd yn erbyn rhagfarn a chamliwio. Cauir ni allan o gyfeillach yr eglwysi sydd o amgylch i ni. Nid ydym am anwybyddu na lleihau yr anfanteision hyn yn ein safle heddyw. Rhaid i ni gyfarfod â hwynt. Ac fe'n hanogir ni yn fawr i wneyd hyn gan y parodrwydd cynnyddol a welwn yn mhobman, i wrando ar ein hegwyddorion yn cael eu traethu, i ddarllen ein llenyddiaeth, i gydnabod didwylledd ein hargyhoeddiadau, ac i gymmeradwyo yr amcan sydd gyda ni mewn golwg.

Os gwir yw fod gobaith enwad yn ei phobl ieuainc, nid yw ein gobeithion ni o gwbl yn gymmylog; oblegyd bendithir ein heglwysi â lluaws mawr o weithwyr ieuainc llawn yni a brwdfrydedd, a llenwir y rhan amlaf o'n pwlpudau gan weinidogion ieuainc. Os bydd i'r rhai hyn brofi eu hunain yn olyniaid teilwng o'r gwyr godidog y maent hwy wedi myned i mewn i'w llafur, fe ddaw yr achos Undodaidd yn ddiamheu yn allu llawer mwy yn Nghymru nag yw heddyw.

Gan ddiolch i Dduw am yr arwyddion o fywyd ag ydym yn weled yn ein mysg, ac am yr arwyddion o obaith a ganfyddwn ar bob llaw, yr ydym yn cymmeryd calon ac yn edrych yn mlaen at yr ugeinted canrif gyda llawenydd a ffydd.—Allan o'r "*Light on the Way.*"

Pontypridd DR. GRIFFITHS.

"GWNEWCH EICH GOREU."

2 Pedr iii. 14.

(Traddodwyd yn Furnival Street, Llundain, Medi 13eg, 1896).

Gan D. Delta Evans.

(Parhad).

Nid 'wyf yn dymuno cweryla â'r esponwyr a'r beirdd gyda golwg ar ystyr yr iaith ryfedd a ddefnyddir gan Pedr yn y bennod hon; oblegyd nid fy amcan ydyw ceisio eglurhau a dehongli yr hyn a addefir gan feirniaid profiadol, dysgedig, ac athrylithgar sydd yn dywyll a dyrys i'r eithaf; ond y mae genym bob hawl i dynu casgliadau addysgiadol a gwersi moesol hyd y nod oddiwrth adranau mwyaf annealladwy yr ysgrythyrau. Ac ymddengys i mi fod cynghor yr apostol—"gwnewch eich goreu"—yn wir deilwng o'n sylw a'n myfyrdod ar achlysur fel y presennol. Hwn ydyw ein cyfarfod cyntaf ni ar ol yr *holidays*—ar ol wythnos neu ddwy o orphwys oddiwrth lafur a lludded a sŵn terfysglyd y ddinas, ar ol ychydig seibiant oddiwrth ofalon masnachol, pryder teuluol, a dyfalwch efrydol. Y mae rhai o honom wedi cael y fraint unwaith mwy o ymweled â gwlad anwyl ein genedigaeth; wedi cael ysgwyd dwylaw â hen gyfeillion, ac ymlawenhau yn nghwmni hoff—berthynasau; wedi cael adnewyddu cydnabyddiaeth â manau chwareu a champau diniwed eu mebyd, wedi cael sylwi ar olygfeydd prydferth y bryniau, y nentydd, y dolydd, a'r afonydd, ac wedi cael cyfle etto i yfed yn helaeth o awelon iach gwlad y mynyddoedd! 'Rwyf yn gobeithio o ddyfnder fy nghalon, gyfeillion, eich bod chwi oll wedi mwynhau eich hunain—eich bod chwi yn teimlo lles ac adfywiad, cryfder newydd corff a hoenusrwydd yspryd, ac yn awr, fel cewri adnewyddol, eich bod chwi yn penderfynu gwneyd eich goreu! I'r diwyd, nid oes dim yn fwy pleserus na gweithio; ac os na bydd un yn teimlo dyddordeb a hyfrydwch yn ei waith, prin y gellir dysgwyl iddo wneyd nemawr ddim yn effeithiol a llwyddiannus—prin y gellir dysgwyl iddo wneyd ei oreu gydag unrhyw beth. Yn awr, ynte, wedi cael newid awyr a golygfeydd, a mwynhau ein hunain mewn pleserdeithiau a rhodiana, wele ni etto wedi dychwelyd at ein gwahanol alwedigaethau, i lafurio yn ddiwyd, ac i ymladd o ddifrif ar faes brwydr bywyd. Gyfeillion, bydded i ni oll fedru dweyd ein bod wedi dychwelyd gyda'r bwriad diysgog o wneyd ein goreu gyda phobpeth a gymmerwn mewn llaw! ✗Nid oes angen i mi geisio cyfarwyddo neb sydd yma pa fodd i wneyd eu goreu gyda phethau masnachol, neu alwedigaethau beunyddiol bywyd; gŵyr pawb sut i gydio yn y pethau yna yn eu ffyrdd eu hunain, ac yn y gwahanol gylchoedd y maent yn troi ynddynt. Ond gadewch i ni am foment

sylwi ar y testyn yn ngoleuni y Mudiad hwn y teimlwn y fath ddyddordeb ynddo, h.y., yn ei agwedd grefyddol, yn ei berthynas â phethau ysprydol, pethau byth-barhäol, y pethau hyny ydynt yn cyssylltu y byd gweledig â'r un anweledig, y dynol â'r Dwyfol, y tymhorol â'r tragwyddol. Peidiwch a fy nghamddeall i. Nid ydwyf ar un cyfrif yn golygu mai rhywbeth i'w chadw yn unig ar gyfer byd arall ydyw crefydd, nad oes un cyssylltiad rhyngddi â'r byd a'r bywyd presennol—nad ydyw, mewn gair, yn ddim ond cydsyniad â rhyw athrawiaeth arbenig, neu danysgrifiad i gredo hwn neu gredo'r llall. O, na; os nad ydyw ein crefydd ni yn trwytho ein bywyd ymarferol ni; os nad ydyw yn cael y lle goreu yn ein calonau a'n meddyliau ni; os nad ydyw yn nodweddu pob gweithred o'n heiddo, ac yn ein cynnorthwyo i ymladd yn ddewr yn erbyn profedigaethau ac anhawsderau bywyd—os nad ydyw o leiaf yn gwneyd hyn, wel, gallwn fod yn dawel yn ei chylch, oblegyd nid ydyw yn werth son am dani. Wrth bethau crefyddol, ynte, y golygwn, nid pethau *croes* i'r materol a'r tymhorol, ac yn gwrthwynebu gwahanol orchwylion a gofynion bywyd, ond yr elfen fywydol hono sydd i ysprydoli y pethau hyn; yr egwyddorion sydd i'w rheoli a'u llywodraethu; y cymhellion sydd i gynhyrfu pob gweithred, ysgogiad a gair o'n heiddo; y gwirioneddau mawrion a disyfl hyny y credwn mor gadarn sydd i fod yn rhan anwahanadwy o honom ni ein hunain, i aros gyda ni pan y byddwn yn ymollwng eich gafael yn mhob peth arall, ac yn ein dylyn ni i dragwyddoldeb ei hunan! "Gwnewch eich goreu," meddai y testyn, gyda'r pethau hyn.

EMYN NADOLIG, 1751.

[Wedi clywed fod ambell i nodyn Cymreig yn y *Gentleman's Magazine*, cefais olwg ar hen gyfrol, a daethum ar draws y llinellau canlynol. Yr wyf yn eu gyru i Mr. Gol. yn fwy fel cywreinbeth hanesyddol nag am un gwerth neilliuol a berthyn iddynt. Pwy oedd yr I H ddanfonodd y llinellau i fewn?—R.J.J.]

(Allan o'r "Gentleman's Magazine," Vol. xxii., February, 1752, p. 87.)

Deffrowch o'r bron, drigolion byd,
Boed unfryd eich lleferydd,
I roddi helaeth fawl i Dduw,
Am radol wiw Waredydd.

Daeth hwn i'r cnawd mewn Dynol fodd,
Dihatrodd o'i fawrhydi,
I'n dwyn i'r lan i'r nefol fro,
O droion o drueni.

Dysgleiriodd ei Efengyl lon
Mewn addewidion sanctedd,
I roddi hawl i ddynol ryw
I gymmod Duw am gamwedd.

Aeth Hwn i'r groes fel Oen dinam
I oddef am ein beiau;
Cododd o'r bedd i'n llwyr ryddhau
O ingol balfau'r angau.

Molianner efo'r Pegwn poeth,
Hyd ogledd noeth a'i therfyn;
Taened ei glod o'r Dwyrain dir
Yn llawen i'r Gorllewin.

VELFFREY.

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU FEL EU COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

RHAGFYR 6.

GWERS IX.—ADOLYGIAD O'R GWERSI BLAENOROL.

RHAGFYR 13.

GWERS X.—RHAGARWEINIOL.—GENEDIGAETH IESU.

Y TESTYN EURAIDD.—"*Ti a elwi ei enw ef Iesu, oblegyd efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau.*"

Y flwyddyn y ganwyd Ef.— Mae ein hamseryddiaeth gyffredin ni yn golygu fod Iesu wedi ei eni 1896 o flynyddau yn ol, ac fod ei enedigaeth wedi cymmeryd lle ar ddydd Nadolig. Dywed Efengylau Matthew a Luc (Matt. ii. 1 a Luc i. 5) ei fod wedi ei eni yn nyddiau Herod, brenin Judea, neu Herod Fawr. Ond bu Herod farw bedair blynedd cyn dechreuad y cyfnod Cristionogol. Dywed Luc yn mhellach (Luc iii. 1) fod Iesu yn nghylch dechreu ei ddeng mlwydd ar hugain oed ar ymddangosiad Ioan Fedyddiwr yn y bymthegfed flwyddyn o ymerodraeth Tiberius Cesar. A chymmeryd pobpeth i ystyriaeth, tybir yn gyffredin yn awr fod Iesu wedi ei eni ryw bedair blynedd beth bynag cyn y cyfrif cyffredin.

Y dydd y ganwyd Ef.—Os ydyw'r flwyddyn yn ansicr, mae'r diwrnod yn llawer mwy felly. Cyttunwyd ar ddydd Nadolig yn y pedwerydd canrif er mwyn rhoddi ystyr Gristionogol i hen wledd Rufeinig a gymmerai le ar y 25ain o Ragfyr.

Y lle y ganwyd Ef.—Mwyaf tebygol Nazareth yn Galilea. Nazareth yw ei dref enedigol (Matt. xiii. 57, Luc iv. 24, Marc vi. 4). Galilead yw (Matt. xxvi. 29, Ioan vii. 41, 42). Gelwir Ef Iesu o Nazareth (Matt. xxi. 11, xxvi. 71, Luc xxiv. 19, Ioan i. 46, xviii. 5, 7, xix. 19, Actau ii. 22, iii. 6). Wrth gwrs dywedir ar ddechreu Matthew a Luc mai yn Methlehem Judea y ganwyd Ef; ond cyfaddefir yn awr hyd y nod gan esponwyr uniawngred, megys yr enwog Meyer, fod y pennodau hyn yn chwedlonol *(mythical)*, ac nis gellir eu derbyn fel gwirionedd.

Y ddau hanes yu gwahaniaethu.—Golyga Matthew fod cartref Joseph a Mair yn Methlehem, ac "yn y ty" y ganwyd Iesu, ac nid mewn preseb wrth ochr lletty (Matt. ii. 11, 22). Dywed Luc fod eu cartref yn Nazareth, ac iddynt fyned i Fethlehem ar gyfer amcanion "y trethiad a wnaethpwyd pan oedd Cyrenius yn Rhaglaw ar Syria" (Luc ii. 2). Fel mater o ffaith, cymmerodd y trethiad le ddeng mlynedd ar ol hyny, ac mae'r hanesydd wedi gwneyd camsyniad. Mewn gair, mae'r hanesion hyn am yr enedigaeth yn Methlehem, a'u harchwilio yn fanwl, yn llawn annghyssonderau, ac ni ddaliant brawf.

Sut y dechreuodd y fath hanesion.—Yr oedd yn gred gyffredin mai yn Methlehem Judea y genid y Messiah. Pan y daeth dynion i ystyried yr Iesu fel y Messiah, yr oedd yn hawdd casglu fod yn rhaid iddo gael ei eni yn Methlehem, oblegyd mae adnod yn Micah, a dybient hwy oedd yn cyfeirio at y Messiah, yn enwi Bethlehem fel ei le genedigol (Micah v. 2). Yn ol pob tebygolrwydd, ychwanegiadau ydynt yr hanesion hyn am yr enedigaeth yn Methlehem at yr Efengylau gwreiddiol, wedi dyfod i fodolaeth ar ol amser yr apostolion.

Beth a dybygwch chwi am Grist?—Yr oedd y cwestiwn hwn, sydd heb ei benderfynu etto, a r hwn sydd wedi bod yn un o ddyrysbynciau yr oesau, wedi tynu sylw neillduol y dysgyblion boreu. Yr oedd Iesu mor fawr ac mor anwyl yn eu golwg, ac yn sefyll gymmaint yn uwch na neb arall yn ngogoniant ei gymmeriad, yn nysgleirdeb ei sancteiddrwydd, mawredd ei gariad a'i gydymdeimlad at ddyn, ac yn holl ddylanwadau daionus ei fywyd a'i farwolaeth, fel ag yr oedd yn ymddangos yn berson hollol wahanedig, ac ar ei ben ei hun; a'r cwestiwn oedd y pryd hwnw fel heddyw, sut i gyfrif am dano—"Beth a dybygwch chwi am Grist?"

Dau syniad yn y tair Efengyl gyntaf.—Yn ol y syniad cyntaf a'r henaf, daeth i'r byd fel rhyw ddyn arall yn fab i Joseph a Mair. Meddai pobl Nazareth, "Onid hwn yw mab y saer; onid Mair y gelwir ei fam ef?" &c. (Matt. xiii. 55; gweler hefyd Marc vi. 3, Luc iv. 22). Cadarnheir hyn hefyd yn y bedwaredd Efengyl, lle y dywedir am dano, "Iesu o Nazareth, mab Joseph" (Ioan i. 45;

gweler hefyd Ioan vi. 42). Nid oes dim ag sydd yn annghysson â hyn i'w gael yn holl ysgrifeniadau dylynol y Testament Newydd. Mae ei ddechreuad fel hyn yn naturiol, ac mae'n "cynnyddu mewn doethineb a chorffolaeth, a ffafr gyda Duw a dynion."

Disgyniad yr Yspryd Glân.—Yn nghlyn a'r syniad hwn, cawn fod amgylchiad neillduol yn cymmeryd lle ar adeg ei fedydd gan Ioan. Mae'r Yspryd Glân yn disgyn arno megys colomen, a llef o'r nef yn gosod sel ei awdurdod arno fel Mab Duw. Yn y modd hwn yr oedd yr ysgrifenwyr yn cyfrif am yr hyn oedd yn arbenig ac yn wahaniaethol yn ei Berson ac yn ei waith.

Yr ail syniad.—Yn ol dull hen ysgrifenwyr, pan oedd rhywbeth newydd yn cael ei ychwanegu at hanes neillduol, nid oedd y golygwyr yn edrych i fewn a oedd y peth newydd yn gysson a'r hen. Felly mae'r ail syniad yn gorwedd yn gyfochrog a'r cyntaf yn Efengylau Matthew a Luc, er yn annghysson ag ef. Yn ol yr ail syniad hwn yr oedd Iesu yn Fab Mair, ond wedi ei genedlu o'r Yspryd Glân, heb un tad dynol (gweler Matt. i. 18—25, Luc i. 34—35). Mae son am enedigaethau gwyrthiol ereill yn y Beibl, megys Isaac, Samuel, ac Ioan Fedyddiwr; a thuallan i'r Beibl fe'n hyspysir nad oedd gan ddynion mawr, megys Budha, Zoroaster, Pythagoras, Plato, ac Alexander Fawr, ddim tadau daearol. Gan nad beth am hyny, yr ydym wedi crybwyll eisoes yr addefiad cyffredin fod pennodau dechreuol Matthew a Luc sydd yn cofnodi genedigaeth Iesu o natur chwedlonol. Mae'r ddau hanes hefyd, fel y dywedwyd, yn anghysson a'u gilydd; ac nid yn unig hyny, ond yn annghysson â hwy eu hunain. Mae y ddau yn olrhain llinach Iesu trwy Joseph i fyny at ei hynafiaid; ond pa reswm sydd dros ei olrhain trwy Joseph os nad oedd un berthynas rhyngddo ag ef?

Ystyriaethau ereill.—Nid oes un cyfeiriad at yr enedigaeth wyrthiol yn un rhan arall o'r Testament Newydd, nac yn Efengylau Matthew a Luc ychwaith, ond yn y manau a grybwyllwyd. Mae yn amlwg nad oedd ei deulu yn gwybod dim am ryfeddodau ei ddechreuad. Nid oedd ei rieni yn ei ddeall pan y dywedai, yn ddeuddeg oed, fod yn rhaid iddo fod yn nghylch y pethau a berthynent i'w Dad (Luc ii. 50). Ar un adeg pan y gwelai ei fam a'i frodyr mor llwyr oedd wedi ei feddiannu gan frwdfrydedd y proffwyd, tybient ei fod allan o'i bwyll (Marc iii. 21). Mor annaturiol fyddai y dybiaeth i Mair a hithau yn gwybod am wyrthiau ei enedigaeth!

Pwnc yr oes hon.—"*Y fflam* sydd yn llosgi dan y gwydr," fel y dywed y Prif-Athraw Edwards o'r Bala, yw "Pwy yw Iesu o Nazareth?" Dywed yr Eglwys ar un llaw mai y Duwddyn ydyw. Dywed y Rhesymolwr ar y llaw arall mai dyn mawr mewn crefydd oedd *(religious genius)*, cynnyrch ffeithiau, tueddiadau, a syniadau ei oes, blodeuyn dadblygiad crefydd ei genedl. Nid ydym yn gweled fod y naill dybiaeth na'r llall yn cyfateb i'r ffeithiau. Mae y cyntaf yn glogyrnaidd ac afresymol. Mae r ail yn annigonol. Credwn yn ddibetrus mai dyn oedd, gyda dyndod gwirioneddol a digymmysg; ond yn ngwyneb ei gymmeriad dibechod, ei ymwybodolrwydd

gwastadol o Dduw, yr awdurdod ddiderfyn gyda'r hon y siaradai rhyfeddodau ei fywyd a'i farwolaeth, yr oedd yn ddyn eithriadol, rhagluniaethol, wedi ei alw i fodolaeth er mwyn amcanion neillduol gan ewyllys greadigol Duw, ac wedi ei ddonio ag Yspryd Duw uwchlaw mesur.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y Testyn Euraidd. 2. Pa flwyddyn a pha ddydd y tybir fod Iesu wedi ei eni? 3. Sut y daeth pobl i gredu mai ar ddydd Nadolig y ganwyd Ef? 4. Yn mha le yn debygol y ganwyd Iesu? 5. Yn mha le y dywed Matthew a Luc y ganwyd Ef? 6. Pa reswm sydd dros wrthod eu credu yn y mater hwn? 7. Pwy oedd i gael ei eni yn Methlehem yn ol y dysgwyliad cyffredin? 8. Enwch y ddau syniad gyda golwg ar enedigaeth Iesu. 9. Beth ddygwyddodd i Iesu ar amser ei fedydd? 10. Enwch ereill heblaw Iesu y dywedir eu bod wedi dyfod i'r byd yn wyrthiol. 11. Beth yw prif bwnc yr oes hon yn ol y Prif-Athraw Edwards?

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. Sut ydych chwi yn profi fod Iesu wedi ei eni bedair blynedd o leiaf cyn y cyfnod Cristionogol? 2. Sut mae Matthew a Luc yn gwahaniaethu ar fanylion eu hanes? 3. Beth ydyw ansawdd yr hanes hwnw? 4. Beth oedd yn peru i'r Cristionogion boreu i briodoli dechreuad gwyrthiol i Iesu? 5. Enwch y ddwy ffordd i gyfrif am dano a gawn ni yn y tair Efengyl gyntaf. 6. Yn mha beth mae Matthew a Luc yn annghysson â hwy eu hunain? 7. Beth ydych chwi yn gasglu gyda golwg ar ei enedigaeth wyrthiol oddiwrth ymddygiad ei rieni—ei fam a'i deulu? 8. Eglurwch, os gellwch, beth feddylir wrth y Duw-ddyn. 9. Beth yw athrawiaeth yr "ymwaghad?" (Gweler Anerchiad y Parch. R. J. Jones, M.A., yn Rhydygwin). 10. Rhoddwch syniad y Rhesymolwr am Iesu. 11. Beth mae ysgrifenydd y wers yn geisio ddweyd? 12. Beth ydych chwi yn ddweyd eich hunain? W.J.

RHAGFYR 20.

Gwers XI.—Rhagarweiniol.—Cartref yr Iesu.

Y Testyn Euraidd.—"*A phan ddaeth Joseph, efe a drigodd mewn dinas a elwid Nazareth.*"—Matt. ii. 23.

Nazareth.—Yn Galilea, rhanbarth ogleddol, a'r hwn sydd hefyd y darn prydferthaf a mwyaf ffrwythlon o holl wlad Palestina, (gwel Gwers v), saif pentref bychan Nazareth, lle y bu yr Iesu fyw dros y rhan fwyaf, os nid yr oll o'i oes. Dywed teithwyr wrthym fod y man lle magwyd yr Iesu yn un o'r llanerchi tlysaf yn yr holl fyd.

Mae Nazareth mewn dyffryn neillduedig, ar lun cwpan, yn nghanol mynyddoedd Zabulon, lle y maent yn ymddiwel i lawr i wastadedd Esdraelon, o ba le y gellir cyrhaedd y pentref ar hyd llwybr serth a garw. Tu cefn i'r pentref ymgoda bryn sydd oddeutu pum can' troedfedd o uchder, ac oddiar gopa y bryn hwn y gwelir un o'r golygfeydd rhyfeddaf yn y byd—yn nghyfeiriad y gogledd mae mynyddoedd Galilea, gyda Hermon, gwyn ei goryn, yn ymgodi uwchlaw iddynt i gyd; tua'r gorllewin, ceir trem ar Fynydd Carmel, tueddau Tyrus, a dyfroedd gloewon Mor y Canoldir; ychydig filldiroedd i'r dwyrain mae Mynydd Tabor; ac i'r deheu mae gwastadedd Esdraelon, a thuhwnt i hwnw fynyddoedd Ephraim. Yr oedd holl bregethiad yr Iesu wedi ei liwio a'r prydferthion naturiol hyn, a gwnaeth ddefnydd aml o'r gwersi a awgryment iddo yn ei ddammegion a'i addysgiadau. Oddiwrth y ffaith iddo drigo am gymmaint amser yn Nazareth y gelwid Ef yn Nazaread (Matt. 2. 23). Cyfrifid Nazareth yn le enwog o ddrwg, fel y daeth yn ddiareb yn mhlith y werin, a ddichon dim da ddyfod o Nazareth? Ioan i. 46.

Tai.—Yr oedd yr annedd-dai yn mhentref Nazareth, ac mewn rhanau ereill o'r wlad, yn wahanol iawn i'r rhai yr ydym ni yn gyfarwydd a hwy, Gwneid yr heolydd yn gulion iawn, ac ymestynai y rhanau uchaf o'r tai gymmaint allan nes oeddent yn mron cwrdd y naill a'r llall. Fel hen fythynod Cymru, yr oedd yr anneddau yn isel iawn. Ond yn wahanol i'n tai ni, yr oedd y nen yn *flat*, ac arweiniai grisiau o'r tu allan i'r lan i ben y ty. Ac weithiau ceid llwybr yn myned o ben un ty i ben y llall. Oherwydd tymheredd wresog y wlad, ar benau y tai yr oedd trigfa fwyaf aml y bobl, fel yr oedd nen y ty mor bwysig iddynt hwy ag yw ein parlyrau i ni. Eisteddai teuluoedd yno, croesawent eu cyfeillion yno, bwyttaent a chysgent yno. Y dodrefnyn mwyaf prin yn y tai hyn oedd cadair i eistedd arni, gan yr arferai'r bobl eistedd ar y llawr a'u coesau yn mhleth. Tai gwynion, glanwedd iawn yr olwg arnynt oedd yn Nazareth, ac ar hyd eu muriau y tyfai ac y ffrwythai y winwydden. O gylch y pentref, hefyd, ceid gerddi llawnion o ffrwythau per, a choedwigoedd o olewydd, ffigys, yr *orange*, a'r pomgranad.

Cartref Joseph a Mair.—Nid yw yn debygol fod y ty y magwyd yr Iesu ynddo yn amgenach nag eiddo gweithwyr ereill Galilea. Saer oedd Joseph, ac ymddengys iddo farw cyn i'r Iesu ddechreu ar ei waith cyhoeddus. Gallwn gasglu fod yn y teulu chwech o blant heblaw yr Iesu, Marc vi. 3, a dysgynodd yr holl ofalon ar Mair ar ol marwolaeth ei gwr. Dylynai yr Iesu yr un grefft a'i dad, ac ni thybiwyd erioed fod y grefft yn un anfri arno, oblegyd yr oedd yn arferiad yn mhlith yr Iuddewon i bob un ddysgu ei grefft; yr oedd gan y doctoriaid mwyaf enwog eu crefft—crefft Paul oedd adeiladu pebyll. O ran dim a wyddom i'r gwrthwyneb, arosodd yr Iesu wrth y grefft hon am y deunaw mlynedd nad oes air o'u hanes ar glawr.

Dylanwad y Cartref.—Yn yr oes hon yr ydym ni yn arfer dweyd fod llawer i wr enwog yr hyn y mae dylanwad bendithiol a dyrchafol cartref wedi ei wneyd. Mae cynghor mam ac esiampl tad wedi bod

yn elfenau pwysig yn ffurfiad bywydau eu plant. Pa cyn belled y gallwn ni ddweyd i gartref yr Iesu i'w helpu i ddyfod y blaenaf a'r goraf o deulu mawr gwir feibion Duw. Mae gyda ni le i gasglu fod yr Iesu ar drothwy ei yrfa gyhoeddus bron, wedi teimlo nad y gelynion lleiaf oedd ganddo i ymladd yn eu herbyn oedd tylwyth ei dy ei hun. Tybient ei fod yn ynfydu—ei fod allan o bwyll, ac nis gallwn synu fawr at hyn. Meddyliwch am dad sydd yn gas ganddo farddoniaeth, neu sydd yn diystyru pob medr mewn celfyddyd, nis gall y cyfryw dad ddeall nwyd ynfyd ei blentyn sydd yn cael ei dywys i ymwadu â chysuron a manteision gyrfa addawol yn y byd, er mwyn ysgrifenu rhywbeth na ddarllenir byth mo hono, neu, er mwyn paentio darlun nad oes ar y byd mo'i eisieu. Neu, meddyliwch am fam sydd yn prisio barn dda ei cheraint a'i chymmydogion yn fwy na dim arall, sut y clwyfir hi gan chwaeth hynod ei merch sydd am arwain bywyd mewn ffordd na chymmeradwyir mo honi gan neb. Tybiwch pe deuai rhyw Grist fel hyn i'ch teulu, pe torai eich plentyn ar draws holl arferion cymdeithas, fel y gwnaeth yr Iesu pan y gadawodd ei weithdy, ac yr aeth i'r eglwys i ddynoethi ei gweinidogion, a chyfeillachu â haid o wyr anwybodus ac isel-radd? Yr ydym yn ofni y dywedech am dano fel y dywedodd ei frodyr am Grist, ei fod yn ynfydu. Ai nid yw yn bossibl fod yr hoelen gyntaf yn nghroeshoeliad yr Iesu wedi ei gwneyd yn y ty yn Nazareth, gan y diffyg cydymdeimlad a fodolai yno? I'r Iesu mae y cartref yn sefydliad cyssegredig bob amser, ond mae Teyrnas Dduw yn fwy na'r cartref. Mae yn anhawdd cyfrif am fywyd godidog yr Iesu oddiwrth ddylanwadau y cartref. Cyfrifir am lawer gan y dygiad i fyny, a chan yr amgylchiadau gan y rhai y ca dyn ei osod, ond a yw hyn yn cyfrif am yr oll? Po uchaf a pho mwyaf gwreiddiol yw'r cymmeriad, lleiaf i gyd y mae yn ymddybynu ar neillduolion yr hyn a'i hamgylchyna. Trwy ddylanwadau y cawn gyfeirio atynt etto, fe gynnyddodd yr Iesu mewn doethineb a ffafr gyda Duw a dynion.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

Adroddwch y Testyn Euraidd. Yn mha dalaeth o Balestina y mae Nazareth? Pa fynydd sydd gerllaw i'r pentref? Pa gymmeriad a roddid fynychaf i bobl Nazareth? Pa ystyr a gyssylltir yn yr Hen Destament â'r gair "Nazaread?" Pa fath dai a adeiledid yn amser yr Iesu? A oedd cynllun y tai yr adeg hono yn help i lanweithdra? Pa sawl brawd a chwaer oedd gan yr Iesu? Pa agwedd a gymmerasant tuag ato pan y dechreuodd Efe ei fywyd cyhoeddus? A oedd y ffaith fod yr Athraw yn meddu ar grefft yn rhwystr iddo yn ei waith? Beth dybygwch chwi oedd y dylanwadau a wnaethant yr Iesu yr hyn oedd Efe? A oes genym hanes am ddynion da wedi eu magu mewn teuluoedd heb fod felly?

J.H.D.

RHAGFYR 27.

Gwers XII.—Rhagarweiniol.—Iesu yn yr Ysgol.

Y Testyn Euraidd.—"*Ymafael mewn addysg, ac na ollwng hi: cadw hi; canys dy fywyd yw hi.*"—Diar. iv. 13.

Addysg yn mhlith yr Iuddewon.—Gosodai yr Iuddewon bwys mawr ar addysg (gweler Deut. vi. 6-9). Dengys y frawddeg ganlynol o'r Talmud yr un peth:—"Dinystriwyd Jerusalem am fod addysg yr ieuanc wedi cael ei hesgeuluso." Dywed Josephus: "Ein gofal penaf yw addysgu ein plant yn dda;" ac yn mhellach dywed: "Gorchymynir i ni gan ein deddfau i ddwyn ein plant i fyny mewn addysg, ac i'w harferyd yn y deddfau, ac i hyspysu iddynt am weithredoedd ein teidiau modd y gallont eu hefelychu." Yr oedd yn ddyledswydd arbenig ar bob pen teulu i ddysgu eu crefydd i'w plant. A thrwy eu hanes fel cenedl, eu prif ofal oedd gwneyd eu plant yn gyfarwydd â'u llenyddiaeth gyssegredig, yr hon a gynnwysai eu deddfau a'u hanes fel cenedl o'r dechreu.

Cynnydd addysg yn eu plith.—Nid yw yn debyg fod un drefn sefydlog yn eu plith i gyfranu addysg am gryn amser. Yr oedd pob pen teulu yn gofalu am addysg ei blant ei hun. Ni ddechreuwyd sefydlu ysgolion hyd ar ol y dychweliad o Babilon. Sefydlwyd yr ysgolion cyntaf yn Jerusalem. Ond nid oedd y rhai hyn yn gyrhaeddadwy ond i rai oedd yn byw yn agos, neu i gyfoethogion. Oddeutn 70 C.C., gwnawd ymdrech i sefydlu ysgolion yn y prif drefydd yn y wlad. Yn raddol, daeth ysgol i fod yn gyssylltiedig â phob synagog. Yr athraw oedd penaeth y synagog.

Y synagog.—Dechreuwyd adeiladu synagogau ar ol y dychweliad o Babilon, er cyfleusdra i rai oedd yn methu myned i'r deml yn Jerusalem yn aml. Tai syml, wedi eu hadeiladu o geryg. Yn amser Iesu Grist, atebent dri dyben: ysgoldy, llys, ac addoldy.

Y dull o gyfranu addysg.—Dysgid y llythyrenau yn gyntaf. Yna darllen. Dysgid ysgrifenu hefyd. Luc i. 63. Yr oedd cryn lawer o ddysgu ar y cof, yn enwedig y rhanau mwyaf pwysig o'r ddeddf. Dywed Josephus: "Gofynwch i unrhyw un o'n pobl unrhyw beth ynghylch eu deddfau, ac efe a'u dywed wrthych yn hawddach [nag y dywed] ei enw ei hun, a hyn oherwydd eu bod wedi eu dysgu mor fuan ag y medrent ddeall rhywbeth." Yr unig lyfr a astudid oedd yr Ysgrythyr neu'r Ysgrythyrau. Fel yr oedd y plentyn yn tyfu i fyny, dysgid iddo fanylion y ddeddf, yn ogystal a thraddodiadau a hanes y genedl.

Iaith y bobl ac iaith y Beibl.—Yn yr iaith Hebreig yr ysgrifenwyd yr Hen Destament gyntaf. Yn amser Iesu Grist yr oedd yr Hebraeg yn iaith farw. Aramaeg oedd yr iaith a ddefnyddid gan y bobl. Hon oedd yr iaith a ddefnyddid gan yr Iesu, fel y dengys amryw eiriau o'i eiddo yn yr Efengylau. Felly pan oedd yr Ysgrythyrau yn cael eu darllen yn y deml neu'r synagog, yr oedd yn rhaid eu cyfieithu.

A fu'r Iesu yn yr ysgol?—Gallai ddarllen (gwel Luc iv. 16-20). Hyn yn golygu ei fod wedi cael addysg (gwel yr adran flaenorol). Yr oedd hefyd yn dra chyfarwydd a'r Ysgrythyrau: mae hyn yn amlwg oddiwrth yr hanes am dano yn ymddyddan â'r doctoriaid yn y deml pan yn 12eg oed. Dywedir hefyd ei fod yn gallu ysgrifenu (gwel Ioan viii. 6). Mae hyn oll yn ein tueddu i gredu ei fod wedi cael addysg dda yn yr amser hwnw. Ond nid oedd yr addysg yn debygol yn cyrhaedd yn mhellach na gwybodaeth helaeth o r ddeddf, ac o draddodiadau a hanes ei genedl. Nid yw hyn oll yn ddim rhagor nag amcandyb. Mae beirniaid yn gwahaniaethu. Cred Farrar na fu'r Iesu yn yr ysgol; ond cred Geikie yn wahanol—ei fod. Ni ddywedir dim ar y mater yn yr Efengylau. Yn yr Efengylau amheus *(apocryphal Gospels)*, ceir amryw ffug-hanesion am dano yn yr ysgol; ond nis gellir gosod dim pwys arnynt, gan nad ydynt ond traddodiadau diweddar. Ni wyddys dim am dano gyda sicrwydd cyn ei fod yn 12eg oed. Ac nis gallwn wneyd rhagor na ffurfio ein barn ar y mater oddiar ein gwybodaeth o arferion ei oes.

Ffynnonellau addysg yr Iesu.—Yr ydym wedi dadgan ein cred fod yr Iesu wedi bod yn yr ysgol, ac wedi derbyn yr addysg arferol. Ond yr oedd amryw ddylanwadau ereill yn cydweithio i wneyd y dyn fel y portreadir ef yn yr Efengylau. A ydyw'r Efengylau yn awgrymu beth ydynt? Ydynt. Gellir enwi y rhai hyn—ei gartref, ei alwedigaeth, ei gymydogion, ei deithiau i Jerusalem, natur, y synagog, ei obaith cryf am ddyfodol ei genedl, ei gred a'i ymddiriedaeth yn Nuw ei genedl.

GOFYNIADAU I SAFON 3 A 4.

1. Adroddwch y testyn euraidd. 2. Adroddwch Deut. vi. 6 9. 3. Sut y gellir dangos, tuallan i'r Hen Destament, fod addysg yn bwysig yn ngolwg yr Iuddew? 4. Sut y cyfrenid addysg yn eu plith ar y cyntaf? 5. Pa bryd ac yn mha le y sefydlwyd ysgolion gyntaf? 6. Pa bryd y sefydlwyd rhai yn y prif drefydd trwy'r wlad? 7. Pa mor aml oedd ysgolion yn amser Iesu Grist? 8. Beth yw ystyr y gair synagog? 9. Pa bryd y dechreuwyd eu hadeiladu? 10. Yn mha iaith yr ysgrifenwyd yr Hen Destament? 11. Pa iaith ddefnyddid gan Iesu Grist? 12. Pa resymau sydd dros gredu fod Iesu Grist wedi cael addysg?

GOFYNIADAU I SAFON 4.

1. Pa resymau sydd dros feddwl fod yr Iuddewon yn gosod pwys ar addysg? 2. Beth oedd natur yr addysg? 3. Desgrifiwch gynnydd addysg yn eu plith. 4. Pa ddygwyddiad yn hanes y genedl ddygodd y synagogau i fodolaeth? 5. I ba ddyben yr adeiladwyd hwy ar y cyntaf, a pha ddybenion atebid ganddynt yn amser Iesu Grist? 6. Desgrifiwch eu dull o gyfranu addysg. 7. A oes sail

sicr i'r dyb fod yr Iesu wedi cael addysg? 8. Beth yw gwerth y rhesymau a roddir dros gredu fod yr Iesu wedi cael addysg (gwel Gof. 12 uchod)? 9. O ba ffynnonellau ereill y derbyniai yr Iesu addysg?

IONAWR 3, 1897.

GWERS XIII.—ADOLYGIAD AR Y GWERSI BLAENOROL.

D. E.

CANIAD Y GOG I FORGANWG.

Ar fesur a elwir "Mwyneidd-dra," neu "Ddifyrwch Gwyr Harlech" yn y ffordd fyra.

O DDIM a welais tan y rhod, o lydain hyglod wledydd;
Brondir bras o lanaf liw, a 'sdadau wiw wastadydd,
Nid oes a faedda doniau dawn Morganwg, lawn o gynnydd.

Pe tau'm ni'n teithio gwlad Peru, Baramah wiwlan olwg;
Yn mhlith y perlau gwycha'u gwedd, lle maent o amledd amlwg,
Nid yw eu trefydd dedwydd da mor geinwych a Morganwg.

Pe rhoddwn dro i Nubia draw er gweled hylaw golwg;
A'r wlad odidog, goediog wych, trigolion drych digilwg:
Nid y'nt gyffelyb, medd y bardd, a gynnwys gardd Morganwg.

Os awn i'r Indiaidd lwysaidd wlad, sef yno càd y coedydd;
A ffrwythau eurbryd, hyfryd hardd, ail siriol ardd drysorydd:
Ond gwell trysorau gawn yn Sir Forganwg, eurwir gynnydd.

Bu moli mawr am olwg Môn, a chlywed son wnes inau;
Ac ar Feirionydd ddedwydd ddawn, gan ddynion llawn o ddoniau:
Mwy gweddus ydoedd canu clod Morganwg odiaeth, gynau.

Mae rhai yn gwaeddi Môn i mi, serch godde tori gwddwg;
A rhai Meirionydd hylwydd hael, mynydd-dir gwael eu golwg:
Minau waedda'n ochr llwyn mawr genyf fwyn Morganwg.

Glan yw'r tir, a glan yw'r tai, a glan yw rhai breswylia';
O fewn i'r hyglod hynod hon, mae dynion llon eu donia':
I rinwedd bro, ar hyn o bryd, Morganwg glyd mi gana.

Glan yw'r gwragedd hoywedd hynt, ail Elen gynt o olwg ;
A glan yw'r gwyr calonog gwiw, a dardd o liwbryd diddrwg :
A glan yw'r merched hyfryd hardd a gawn yn ngardd Morganwg.

Mor wych y mae ar ochr môr, O hyfryd oror Hafren ;
Gwlad gynwdiog lwythog lawn, dedwyddol iawn a dyddan :
Nid oes cyffelyb toraeth tir, glydfawrgu Sir Gwladforgan.

O bob rhinweddau doniau dwys, Morganwg gynnwys ganodd
Prydyddion hafaidd, ddewraidd ddysg, glwys-faged, hyddysg fagodd :
Ond cludo ddylwn, clod i ddawn, y llaw mor llawn a'u lluniodd.

Mor llonaidd dir, y lluniodd Duw, mor haelaidd yw i'r olwg ;
Mewn pob dysgeidiaeth, rhyfaith, rhôl, mae'n cotto rheol Cattwg :
Mwy ni ddwedaf tra bwyf byw mor gynil yw Morganwg.

Os hola neb, mewn bro na bryn, pwy rodda hyn i'r amlwg ;
Mae c'wilydd arno i enwi n hy' gwaith iddo ganu cynddrwg :
Llysewyn bychan ydyw'r bardd o ganol gardd Morganwg.

Pen-y-lan, Ebrill 4, 1797. EDWARD WILLIAMS
(Iolo Morganwg).

DYLANWAD MYGLYS AR GYFANSODDIAD DYN.

*Sylwadau ar ddylanwad dinystriol myglys ar gyfansoddiad dyn.**

NAS gellir ymwneyd â'r myglys i raddau pell neu am amser hirfaith heb i'r corff o ganlyniad ddyoddef, sydd ffaith resymol pan gofiom pa mor wenwynol o ran ei natur yw'r planigyn dan sylw. Yn y lle cyntaf, perthyna'r planigyn i ddosparth gwenwynol iawn a elwir y *Solanaceae*. Ond ar wahan i'r ffaith bwysig hon, gwyddys yn dda fod tybaco yn wenwynllyd ; ac os cymmerer ef i'r cyfansoddiad, ei fod yn llawn mor beryglus a dinystriol ag unrhyw wenwyn arall. Gelwir elfen wenwynig y ffrwyth yn *Nicotine*, ac am y sylwedd hwn dywed yr Athraw Johnson a ganlyn yn ei "Fferylliaeth Bywyd Cyffredin :"—"Y mae,' meddai, "yn wenwyn mor gryf a *prussic acid*, ac y mae un defnyn o hono yn ddigon nerthol i ladd ci. Os anweddir ef mewn ystafell fechan, gwna yr awyr yn union yn anghymwys i'w anadlu ; ac wrth ysmocio chwarter wns o'r tybaco, tynir i r geneu ddau ronyn o un o'r gwenwynau mwyaf niweidiol

* Cymmerwyd y ffeithiau o'r Saesneg, ac amcenir y sylwadau yn fwyaf neilldnol i fechgyn ieuainc.

adnabyddus. Ond a chaniatau—yr hyn ydym yn rhwym o ganiatau —fod y gwenwyn hwn yn gynnwysedig mewn myglys, dichon y gall rhywrai ofyn, Ai nid yw yn bossibl fod y gwenwyn yn cael ei ddinystrio gan y llosgi, ac o ganlyniad fod y mwg a anadlir yn hollol amddifad o'i ddylanwadau dinystriol? Na, fel y mae'r gwaethaf y modd, mae wedi ei brofi trwy ddansoddiad fferyllol (*chemical analysis*) nad yw'r gwenwyn yn cael ei ladd gan yr ymdriniaeth hon o eiddo'r tân, a'i fod yn cael ei sugno i'r geneu gyda'r mwg. Ond, medd rhywun, hyd y nod ei bod yn ffaith fod gwenwyn yn cael ei dynu i'r geneu, etto i gyd y mae bychander y dogned yn ei wneyd yn hollol ddiniwed. I'r cyfryw, er lleied ei faintioli, mor nerthol a dylanwadol yw o ran natur, nes y mae yn ddigon, a llawer mwy na digon, i adael effaith bron anhygoel ar y cyfansoddiad.

Yn mhellach, dygaf ar gof i'r rhai a ymresymant felly fod ein meddyginiaethau cryfaf, er yn cael eu cyflwyno i'r cyfansoddiad mewn dognau afresymol o fychain, yn gadael dylanwad ofnadwy ar yr hwn a u cymmer. Anaml iawn y breuddwydia meddyg, er enghraifft, orchymyn rhyw lawer mwy na'r driugeinfed ran o ronyn o *atropia*, ac nid yw'r ddogn arferol o *strychnine* yn fwy na'r ugeinfed ran o ronyn, ac felly yn mlaen gyda y rhan fwyaf o'r cyffyr mwyaf grymus.

Efallai eich bod yn credu nad yw bossibl fod dylanwadau cyn lleied mor helaeth. Gadawer i mi brofi ei fod. Gallaf wneyd hyny yn rhwydd trwy ddyfynu ystori o eiddo meddyg.

"Un diwrnod yr wythnos ddiweddaf," meddai, "daeth dyn i'm *surgery*, yr hwn oedd wedi bod yn dyoddef yn ofnadwy am lawer diwrnod. Cefais allan mai achos ei ddyoddefaint oedd y *neuralgia* yn effeithio ar *nerves* y cefn. Mor ofnadwy oedd ei boen nes y penderfynais y dydd canlynol i chwistrellu ychydig *morphia* i'r man drwg. Yn awr, fel y gwyr llawer, ceir *morphia* oddiwrth yr *opium* gwenwynig, ac arferir ef yn fynych gan feddygon pan fydd eisieu lleddfu poen neu ddwyn cwsg i'r cyfansoddiad. O r defnydd hwn ni chymmerais ond yn unig y chweched ran o ronyn (sylwer ar y pwysau), a thoddais ef mewn ychydig ddwfr, a chwistrellais ef i r croen. Mewn amrantiad, troais ac edrychais ar wyneb y dyn. Anhawdd yw credu fod yr effaith mor fawr ac mor uniongyrchol, nes nid yn unig oedd y poen wedi diflanu yn hollol, ond yr oedd y claf bron wedi myned i gysgu yn ei gadair." O ganlyniad, gwelwch pa mor fawr yw effaith niweidiol gwenwyn cryf, hyd y nod pan y cyflwynir ef i r cyfansoddiad mewn dogn hynod fechan.

Ond nid *nicotine*, ynghylch yr hwn ydym wedi bod eisoes yn siarad, yw yr unig wenwyn geir yn y myglys. Y mae yna ereill heblaw hwn. Ac nid yn unig hyny, ond fel pe na bae yna ddigon o'r blaen, cynnyrchir yna wenwyn pwysig iawn drwy y llosgi. Gelwir y defnydd hwn yn "Empyreumatic oil." Cynnyrchir ef, fel yr awgryma'r enw, medd Dr. Brewer, yn ystod y llosgiad yn y bibell neu r sigar. Hwn sydd yn rhoddi y lliw llwyd-ddu i hen bibau ag sydd wedi eu defnyddio am yspaid hir. Y mae yn

wenwyn sur a chysgbar, ac annymunol i'r archwaeth. Dygodd un defnyn o hono, yr hwn a roddwyd ar dafod cath, yn mlaen ddirdyniadau, a chyn pen dwy funyd angeu.

Dywedir fod yr Hottentotiaid yn lladd nadroedd trwy gymhwyso blaen eu pibau pren at flaen tafodau y creaduriaid, y rhai a drengant dan ei ddylanwad mor ddisyfyd a phe y tarawyd hwynt gan fellten.

Os gan hyny mai dyma y stwff a ddefnyddir gan ein hysmocwyr, onid ydyw yn eithaf rhesymol i feddwl fod yna effeithiau ofnadwy a dinystriol yn cael eu dwyn i'r corff gan yr arferiad llygredig. Yn wir, ag ystyried y graddau pell yr ymwneir â'r arferiad ffol, onid yw yn rhyfedd meddwl na fuasai ei ddylanwad niweidiol yn llawer mwy nag yr ymddengys ei fod yn wirioneddol.

Ond i hyn y mae yna eglurhad, a dyma fe: Fod y corff yn raddol yn cynefino hyd y nod â gwenwynau. Dyma ffaith adnabyddus ac amlwg i'n holl feddygon, ac i ddegau tuallan i'r cylch hwnw. Drachefn a thrachefn y ffeindia meddyg yn nghwrs ei waith y gwna mesur bychan o ryw gyffyr y tro am dipyn, ond cyn pen wythnos, mwy neu lai, mae'n rhaid ychwanegu'r ddogn o gryn dipyn cyn y ca yr un dylanwad ei gynnyrchu. Mewn geiriau ereill, mae y claf wedi dyfod yn gyfarwydd â'r cyffyr, neu y *drug*, fel y dywedir, ac yn raddol gellir ei ddwyn i gymmeryd dogn o'r defnyddiau ydwyf eisoes wedi eu henwi, a fuasai yn drancedigaeth buan i ddyn hollol annghyfarwydd â hi. Nid yw ysmocio ond yn unig amlygiad neu eglurhad o'r un ffaith bwysig. Felly, yr unig esboniad am nad yw effaith y myglys y fath y gellid dysgwyl ei fod oddiwrth ystyriaeth fanwl o natur wenwynllyd y defnydd yw y ffaith front fod ysmocwyr yn cyfarwyddo hyd y nod a gwenwyn.

(I'w barhau.)

GOFYNIADAU I BLANT BACH YR YSGOL SUL.

1. A oes genym hanes Iesu Grist wedi ei ymweliad a'r Deml nes y mae yn ddeg-ar-hugain oed?
2. Pa le yn debygol y bu yn ystod yr amser hwn?
3. Beth ddywedir am dano pan yr ym yn cwrdd ag ef wedi tyfu i fyny?
4. Pa nifer o ddysgyblion oedd ganddo ar y cyntaf?
5. Beth oedd eu henwau?
6. Pa sawl un drodd yn anffyddlon iddo?
7. Beth wnaeth hwn?
8. Beth gafodd am hyny?
9. A fu'n edifar ganddo?

NODYNAU GWASGAROG.

MESUR IAR A CHYWION.

Dywedir fod gynt ddiacon yn un o'n heglwysi na fynai ar un cyfrif roi allan yr emyn "Dewch allan o'ch cyfeiliorn," nac un arall ar y mesur hwnw – mesur a adwaenid ganddo ef fel mesur "Iar a Chywion," oddiwrth y pennill canlynol:—

"Mi ddodais iar i ori ar ben y Freni Fawr;
Deg ŵy osodais dani, deg cyw a ddaeth i lawr:
Dydd Sul mi es i'r Eglwys, a'r barcut aeth a nhwy;
Pan genyf iar a chywion, nid af i'r Eglwys mwy."

T.C.U.

MADDEUANT.

Mae'r hwn wrthodo faddeuant yn tori bont dros yr hon y bydd yn rhaid iddo ei hunan basio, gan fod ar bawb angen maddeuant. A oes neb o honom a all edrych yn ol ar unrhyw gam a wnaed iai gan arall? Os yn gall, ni weddai ini ddymuno annghofio y cam hwnw. Mwy ardderchog yw ini ei gofio yn gyflawn, ac etto ei faddeu; i gadw ein teimladrwydd yn ddianaf; ac etto i dderbyn ein brawd a droseddodd, i'n calonau, fel pe byddai heb wneuthur un cam a ni.— A. P. Peabody.

BANAU FFYDD I BLENTYN BACH, YN OL ADDYSG IESU.

Credaf yn Nuw, Crewr a Chynnaliwr pob peth y sydd, fy Nhad I, a Thad pawb dynion.

Credaf fod Duw yn llefaru wrthyf trwy y byd, yn yr hwn y mae wedi fy ngosod, trwy fywydau a geiriau pawb dynion da, a thrwy fy enaid fy hun.

Credaf y gallaf hyderu ac ymddiried yn hollol yn Nuw, yn ogystal yn y pethau a welaf, a'r pethau nas gwelaf, yn y bywyd hwn yn ogystal ag yn yr hwn sydd i ddyfod.

Credaf fy mod yn gwasanaethu Duw pan yn cyflawni yn ffyddlon ac yn siriol y dyledswyddau a roddes i mi i'w gwneuthur, a phan yn byw mewn cariad gyda phawb oddiamgylch i mi.

Ac yr wyf yn gofyn am ei ras, fel y gallwyf wrandaw arno yn fwy ystyriol, ymddiried ynddo yn fwy hollol, a'i wasanaethu yn fwy diwyd a ffyddlon hyd ddiwedd fy oes.—"Light on the Way,"

Mai, 1896. Mrs. C. A. Farrington, *Llundain.*

Y BI A'R YSGUTHAN: DAMMEG.

Y Bi a ganfu'r Ysguthan yn gwneuthur ei nyth yn drwsgl iawn ac annghelfydd gamp, ac a roddes iddi gynghor ac addysg, gan ei dangos a dywedyd wrthi: Dod frigyn y ffordd hyn, a brigyn y ffordd yna, un y modd yma ac arall y modd hyn a'r modd, a thi wnai'th dŷ yn gywir ac yn gadarn, yn lletyog a chynhes.

"Mi wn, mi wn, mi wn '! ebe'r Ysguthan.

Ac er hyny, myned yn y blaen â'i gwaith a wnai hi, yn ei hen ffordd annghelfydd yn ol ei harfer; a'r Bi fyth yn ei dangos, gan geisio gyru addysg arni, ond "Mi wn, mi wn, mi wn," oedd holl ateb a diolch yr Ysguthan, heb ymwellhau yn ei chelfyddyd na chymmeryd arni'r gronyn lleiaf o addysg.

"Os gwyddost, paham nas gwnei?" ebe'r Bi. Ac yna ei gadael ar ei hen ffordd ei hun, gan weled yn ofer ei dangos. Ac o hyn y mae r ddiarheb, "Mal y Bi a'r Ysguthan," a "Mi wn, mi wn, mi wn," fel ateb yr Ysguthan; a "Nid annghelfydd ond ysguthan"; a diarhebion ereill a ddangosant yr un peth, sef, "Nid hawdd gyru dysg ar ddoeth yn ei olwg ei hun"; "Nid hawdd y cymmer annghelfydd ei ddangos"; "Call pob ffol yn ei olwg ei hun"; "Nid hawdd dwyn gwr oddiar ei gamp"; a "Ni wyr neb lai na'r hwn a wyr y cyfan"; "Hoff gan ynfyd ei gnwpa," ac ereill nas gellir eu dysgu gan ddiffyg deall anianawl arnynt, am y diarhebir, "Nid hawdd tynu mêr o bost"; "Ni cheir o un llestr ond a rodded ynddo"; "Nid hawdd gyru ymenydd yn mhost clwyd"; "Nid hawdd o frân y gwneir eos."

Manion ac Hanesion.

Y Parch. W. J. Davies.—Nos Lun, Tachwedd 9, cynnaliwyd cyfarfod dyddorol a brwdfrydig iawn yn yr Eglwys Undodaidd, Mount Pottinger, Belfast, er nwyn croesawi y Parch. W. J. Davies i vaith y weinidogaeth. Cymmerai y cyfarfod ffurf *soiree*, pryd yr oedd yn bresennol lorf o oreugwyr a goreu-wragedd Belfast. Yr oedd araeth Mr. Davies mewn atebiad r cyfeiriadau caredig a wnaed tuag ato, n hyawdl a phwrpasol. Deallwn fod lwyddiant mawr wedi dylyn gweinidogeth Mr. Davies yn ystod yr amser y mae vedi bod yn yr Iwerddon.

Cwm Rhondda.—Mae y Parch. D. Ifor Davies wedi tori ei gyssylltiad a'r ddwy eglwys yn y Pentre a Chwm Clydach. Gobeithio y llwydda y cyfeillion gael olynydd iddo heb fod yn faith.

Merthyr.—Dyry y papyrau lleol adroddiadau helaeth o bregethau y Parch. D. J. Williams, y rhai a draddodir ganddo ar y syniadau a gredir genym fel Undodiaid.

Pontypridd.—Rhydd un o newyddiaduron y lle hwn adroddiad cyflawn o'r ddarlith odidog a draddodwyd yma yn ddiweddar gan Dr. Griffiths.

Llundain.—Nos Sul, Tachwedd 8, ar achlysur mabwysiadu *Perlau Moliant* gan y cyfeillion ffyddlon yn Furnival Street, traddododd Mr. Delta Evans anerchiad

ar "Ganiadaeth y Cyssegr," gyda chyfeiriad neillduol at y llyfr newydd. Ymddangosodd ei anerchiad bron yn gyflawn yn y *Faner* fawr. Aethpwyd trwy y rhanau defosiynol o'r gwasanaeth gan y Cymro twymgalon, y Parch. D. D. Jeremy, M.A.

DOWLAIS.—Ar y Sul, Tachwedd 1, cynnaliodd yr eglwys hon ei Chyfarfodydd Diolchgarwch, pryd y gwasanaethwyd i gynnulliadau boddhaol gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, yn Gymraeg, a chan y Parch. D. J. Williams, Merthyr, yn Saesneg.

CYMMANFA GANU CEREDIGION.—Yr ydym newydd dderbyn rhaglen y gymmanfa hon, a gynnelir yn Llanbedr, dydd Mercher, Mehefin 2, 1897. Gallem farnu fod yn y rhaglen ddefnyddiau cymmanfa ardderchog.

LLANBEDR.—Da genym ddeall fod ein cyfaill ieuanc, G. J. Davies, Penlan, yr hwn sydd yn aelod da yn yr eglwys yn Mrondeifi, wedi ennill un o'r ysgoloriaethau a gynnygid gan Bwyllgor Addysg Cynghor Sir Gaerfyrddin, mewn cyssylltiad ag amaethyddiaeth. Rhwydd hynt i'r brawd'

RHIFYN IONAWR.—Bydd genym gerthyglau tra dyddorol yn rhifyn Ionawr, ac addawn y bydd ein misolyn yn deilwng o'i hunan trwy gydol 1897.

PRIODAS.—Yn Nghapelygroes, ar y 18fed o Dachwedd, gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, a cher bron y cofrestrydd, Titus Evans, unwyd mewn priodas Mr. David Jones, Tanlan, Cribyn, â Miss Eleanor Thomas, Rhandir, ger Alltyplacca Hir oes a phob llwyddiant i'r ddau.

Marwgofion.

Hydref 22ain, yn 72 mlwydd oed, Jane Davies, Pantyronen, Llanwenog, ar ol cystudd hir iawn Bu ein chwaer yn ddynes wasanaethgar trwy ei hoes faith. Bu yn gwasanaethu am flynyddau lawer fel morwyn weini mewn teuluoedd parchus, a phob amser yn enill y cymmeriad hwnw, sef diwydrwydd a gonestrwydd. Claddwyd yn mynwent Capelygroes y dydd Sadwrn canlynol, a phregethwyd gan weinidog y lle, a chynnorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchn. Philips (B.), Capel Seion, a D. Evans, Cribyn. Ni feddai un perthynas agos ond pedwar o neiaint i alaru ar ei hol.

Tachwedd 1af, bu farw Rachel Evans, Blaenberllan, Cribyn (gynt o'r Frongelyn, ger yr un lle), yn 85 mlwydd oed. Hebryngwyd ei gweddillion marwol i fynwent Llanwenog y dydd Iau canlynol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, Cribyn, ac wrth y drws cyn cychwyn gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca. Gadawodd un chwaer a brawd ar ei hol. Nerth a gaffo'r chwaer, yr hon fu'n cydfyw â hi am amser mor faith, i ymgysuro ar ei hol.

Tachwedd yr 11eg, yn 72 mlwydd oed, ar ol misoedd o gystudd, Elizabeth James, Blaencwm, Llandyssul. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent newydd Llwynrhydowen, a gweinyddwyd ar yr achlysur galarus i glywedigaeth tyrfa luosog iawn gan y Parch. J. Davies Alltyplacca Dyma ddolen arall oedd yn cydio eglwys y Llwyn â'r gorphenol pell wedi ei dattod. Yr oedd Mrs. James yn ferch i'r diweddar Evan James, Rhydowen, yr hwn yn ei ddydd fu'n ddiacon a blaenor canu yn y Llwyn am flynyddau lawer, ac a ddygai fawr sêl dros yr achos yn y lle. Nid oes yn aros yn awr ond dau o'r teulu lluosog a defnyddiol hwn. Bydded i'r wyrion gael eu tueddu i adnabod Duw eu tadau, a rhodio yn eu ffyrdd, fel ar derfyn eu gyrfa, y gallont obeithio ar sail dda i gael ail gyfarfod â'r holl anwyliaid a gollasant am dymhor.

Tachwedd 22ain, Llewelyn, mab John a Mary Phillips, 12, Clive Place, Trecynon, Aberdar, yn ddwy flwydd a naw mis oed. "Dagrau hiraeth a ddarfyddant yn y glyn."

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.